Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Residential Outdoor Education (Wales) Bill

ROE 19

Ymateb gan: Chwaraeon Cymru
Response from: Sport Wales

---

## Cyflwyniad

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ar lefel gymunedol ac elitaidd.

Rydym yn cael ein hariannu gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a chan incwm sy'n cael ei gynhyrchu o'n gweithgareddau ein hunain. Ni yw'r prif gynghorydd ar faterion chwaraeon i Lywodraeth Cymru ac rydym yn gyfrifol am ddosbarthu arian y Llywodraeth a'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru. Chwaraeon Cymru yw un o'r cyrff cyhoeddus lleiaf yng Nghymru ac mae ein cyllideb yn cynnwys costau rhedeg, cyllid grant ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol, partneriaid cenedlaethol ac awdurdodau lleol i ddarparu chwaraeon, ond hefyd chwaraeon cymunedol – gan fuddsoddi mewn cyfleoedd lleol a'u cynyddu i glybiau a chymdeithasau i wasanaethu anghenion eu cymunedau lleol.

Rydym yn un o'r 44 corff cyhoeddus yng Nghymru sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); rydym yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg ac yn ystyried ein lle yng nghymdeithas a diwylliant Cymru fel rhywbeth hynod bwysig. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant ac yn edrych ar ein holl waith drwy lens cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym yn ymdrechu i fod y gorau y gallwn fod a rhoi'r gorau y gallwn ei gynnig i bawb ar hyd y llwybr chwaraeon; o blant yn dechrau arni i athletwyr sy'n ennill medalau, i lwybr gyrfa amrywiol yn y sector chwaraeon, i bobl hŷn yn cadw'n heini, yn iach ac yn annibynnol.

## Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

Mae Chwaraeon Cymru yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru). Fel sefydliad, rydym yn credu bod manteision sylweddol i blant a phobl ifanc wrth ddod i gysylltiad â phrofiadau addysgol awyr agored ac rydym wedi dilyn datblygiad y Bil hwn gyda diddordeb.

Mae nifer o amcanion polisi'r Bil yn cyd-fynd â safbwynt Chwaraeon Cymru. Er enghraifft, ein bwriad strategol o 'roi dechrau gwych i bob person ifanc' a bod gan bob person ifanc y sgiliau, yr hyder a'r cymhelliant i'w galluogi i fwynhau a symud ymlaen drwy chwaraeon; mae rhoi'r sylfeini iddynt fyw bywyd actif, iach a chyfoethog yn cael ei gynnwys yn egwyddorion y Bil hwn.

Yn ddiweddarach yn yr ymateb, byddwn yn manylu ar ein gwaith ein hunain yn yr amgylchedd addysg, gan gynnwys rhaglen y Cynnig Actif Dyddiol, sef gwaith cydweithredol sydd ar y gweill rhwng Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cael ei ategu gan y Bil hwn yn ein barn ni.

Mae rhai o ddyheadau polisi Chwaraeon Cymru o ran plant ac addysg yn cynnwys:

- Bydd amgylcheddau addysgol yn helpu plant a'u teuluoedd i ddeall pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac yn meithrin hoffter ohonynt.

- Defnyddir cyfleusterau ysgol yng Nghymru i'w llawn botensial i gyflwyno chwaraeon a gweithgarwch corfforol i'w cymunedau i gefnogi'r nodau o roi dechrau gwych i bob person ifanc.

- Gall pob plentyn gael mynediad i gyfleoedd chwaraeon diogel, sy'n eu meithrin ac nid ydynt yn wynebu rhwystrau fel cludiant, mynediad i git, analluu i gymryd rhan oherwydd diffyg sgiliau (fel nofio neu hyfedredd beicio).

- Defnyddir chwaraeon i'w llawn botensial i helpu i liniaru tlodi plant sy'n deillio'n bennaf o ddiffyg cyfle ac sy'n cefnogi'r dyhead y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn iachach ac yn wydnach.

- Gall pob plentyn gael mynediad at y chwaraeon neu'r gweithgarwch corfforol y mae eisiau eu gwneud, a gwrandewir arnynt mewn ysgolion a lleoliadau allgyrsiol am y mathau o weithgareddau maent eisiau eu gwneud.

Rydym yn credu y byddai egwyddorion cyffredinol y Bil hwn yn cefnogi ac yn cyd-fynd â chyflawni nifer o'r dyheadau polisi hyn. Felly, rydym yn cefnogi egwyddorion y Bil.

Fel y nodwyd yn ein hymateb cychwynnol i'r Bil hwn (17/03/23), mae'r *Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP)* yn sefydlu 10 canlyniad cadarnhaol clir ar gyfer addysg awyr agored.

- **Mwynhad:** Mae pobl ifanc yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol at her, dysgu ac antur.

- **Hyder a Chymeriad:** Mae pobl ifanc yn datblygu hyder a chymeriad personol drwy ymgymryd â heriau a sicrhau llwyddiant.

- **Iechyd a Lles:** Mae pobl ifanc yn dysgu gwerthfawrogi manteision ffitrwydd corfforol a gwerth gydol oes cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden iach ac actif.

- **Ymwybyddiaeth gymdeithasol ac emosiynol:** Mae pobl ifanc yn datblygu eu hunanymwybyddiaeth a'u sgiliau cymdeithasol, a'u gwerthfawrogiad o'u cyfraniadau a'u cyflawniadau eu hunain a chyfraniadau a chyflawniadau pobl eraill.

- **Ymwybyddiaeth amgylcheddol:** Mae pobl ifanc yn dod yn fyw i'r amgylchedd naturiol ac yn deall pwysigrwydd cadwraeth a datblygu cynaliadwy.

- **Sgiliau gweithgarwch:** Mae pobl ifanc yn caffael ac yn datblygu ystod o sgiliau seicomotor i gefnogi eu cyfranogiad mewn gweithgareddau awyr agored, hamdden ac archwilio.

- **Nodweddion personol:** Mae pobl ifanc yn dangos mwy o flaengaredd, hunanddibyniaeth, cyfrifoldeb, dyfalbarhad, dycnwch ac ymrwymiad.

- **Sgiliau ar gyfer bywyd:** Mae pobl ifanc yn datblygu ac yn ymestyn eu sgiliau allweddol, sef cyfathrebu, datrys problemau, arweinyddiaeth a gwaith tîm.

- **Mwy o gymhelliant a dyhead i ddysgu:** Mae pobl ifanc yn dangos mwy o gymhelliant a dyhead i ddysgu sy'n cyfrannu at lefelau uwch o gyrhaeddiad a chynnydd mewn agweddau eraill ar eu datblygiad.

- **Ehangu gorwelion:** Mae pobl ifanc yn ehangu eu gorwelion ac yn dod yn agored i ystod ehangach o gyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd bywyd, dewisiadau bywyd a ffyrdd o fyw.

Rydym yn credu bod y Bil yn ymdrin â’r rhan fwyaf o’r meysydd hyn a’i fod hefyd wedi rhoi cyfle am drafodaethau diddorol a gwybodaeth am feysydd heb eu dwyn i’r amlwg yn flaenorol o bosibl.

Un o fanteision allweddol chwarae yn yr awyr agored yw'r ystod o brofiadau synhwyraidd y mae plant yn dod ar eu traws. Mae plant yn dod i gysylltiad â byd natur a gallant gysylltu â'r amgylchedd mewn ffordd fwy ystyrlon. Maent hefyd yn datblygu ystod eang o sgiliau corfforol gan gynnwys cydbwysedd, cydsymudiad a deheurwydd, a’r cyfan mewn amgylchedd naturiol.

Drwy’r profiadau awyr agored hyn, gall plant ddatblygu ystod o sgiliau newydd gan gynnwys gwydnwch, gwaith tîm, datrys problemau, cyfathrebu a llawer mwy.

Rydym yn gwybod beth yw gwerth bod y tu allan a chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, ac mae data o’r Arolwg Chwaraeon Ysgol diweddaraf (2022) yn tynnu sylw at y ffaith bod galw ymhlith 93% o bobl ifanc am wneud mwy o chwaraeon ac mae 51% o ddisgyblion yn credu bod gwersi AG a chwaraeon yn eu helpu ‘yn fawr’ i gael ffordd o fyw iach.

Mae canlyniadau llawn yr Arolwg Chwaraeon Ysgol diweddaraf i’w gweld yma: https://www.sport.wales/school-sport-survey/

## T.O.R: Oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o’r Bil

## a

## T.O.R. Goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 y Memorandwm Esboniadol);

Mae datblygiad y Bil hwn yn digwydd yn ystod cyfnod o bwysau ariannol i sectorau niferus ledled y wlad. Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 24/25 wedi tynnu sylw at y penderfyniadau cymhleth y mae’n rhaid eu gwneud ar hyd a lled y wlad – gyda llawer yn y sector chwaraeon. Felly, er ein bod yn cytuno ag egwyddorion y Bil, byddem yn cwestiynu a yw'r amseriad yn addas.

Gyda’r newyddion am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-2025, mae Chwaraeon Cymru yn edrych ar dirlun anodd wrth i ni symud i 2024. Bydd gostyngiad o 10.5% yn ein cyllideb yn arwain at effaith enfawr, gan gynnwys diswyddiadau posibl o fewn y sector, gyda rhaglenni sylweddol yn cael eu gohirio neu eu canslo’n gyfan gwbl a phenderfyniadau anodd yn gorfod cael eu gwneud i lawer o sefydliadau, gan arwain at effaith anghymesur ar grwpiau’r genedl sy’n cael eu tanwasanaethu fwyaf. O ystyried bod canfyddiadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW) yn dangos bod bwlch o 11 pwynt canran o hyd rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig y wlad o

ran cyfranogiad, rydym yn gwybod y gallai llawer o bobl gael eu heffeithio ymhellach gan brinder adnoddau.

Rydym yn gwybod o brofiad bod y sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod bod gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol y gallu i gyffwrdd mewn ffordd unigryw â bywydau unigolion yng Nghymru o gymharu â sectorau eraill ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ffrwyno chwaraeon a gweithgarwch corfforol i gyflawni rhaglenni iechyd cyhoeddus, cydraddoldeb, tlodi plant a chyfiawnder cymdeithasol uchelgeisiol y Llywodraeth, gan ein bod wedi profi i fod yn sefydliad da am gyflawni'r agendâu hanfodol hyn. Byddem eisiau gweld buddsoddiad mewn chwaraeon yn cael ei gynnal, gan alluogi ein sector i barhau i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Er y bydd y toriad o 10.5% yn y cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn hynod heriol i Chwaraeon Cymru a'r sector chwaraeon, y pryder mwyaf fyddai effaith gynyddol toriad tebyg yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r sefyllfa ariannol hefyd yn golygu ei bod yn bosibl na fydd rhaglenni sy'n cael effaith ataliol sylweddol ar iechyd sydd wedi'u cynllunio neu sydd ar y gweill ar gyfer grwpiau targed yn gallu dechrau neu barhau, ac rydym yn ofni am yr effaith hirdymor y gallai hynny ei chael ar iechyd a lles pobl yng Nghymru. Amlygodd yr astudiaeth SROI a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yr Astudiaeth Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, bod y sector iechyd yng Nghymru yn elwa o tua £621m o ganlyniad i effaith chwaraeon ar atal salwch.

Mae'n destun pryder mawr y bydd unrhyw ostyngiadau yn y cyllid ar gyfer chwaraeon yn y dyfodol, a'r effeithiau cysylltiedig ar gyfranogiad, yn lleihau'r ffigur hwn, gan ychwanegu mwy o bwysau hirdymor ar wasanaethau iechyd yng Nghymru ar adeg pan mae'n bwysicach nag erioed i ni symud at ddull cwbl ataliol o weithredu gyda lles y wlad. Mae ein hastudiaeth SROI yn dangos hefyd, am bob punt sy'n cael ei gwario ar chwaraeon yng Nghymru, bod elw enfawr o £4.44 i iechyd a lles pobl a'r economi.

Mae'n amlwg y byddai angen ystyried goblygiadau ariannol a'r hinsawdd bresennol wrth fwrw ymlaen â'r Bil hwn ac mae'r gyllideb honno yn ei lle ac ar gael er mwyn i'r Bil gael ei roi ar waith yn effeithiol.

Mae angen trafodaeth ehangach hefyd ynghylch y modelau cyflawni ar gyfer y cynnig hwn a'r effeithiau ariannol yn eu tro y gallai'r rhain eu cael.

Er enghraifft:

- Oes digon o ganolfannau addysg awyr agored ledled Cymru i ddarparu ar gyfer pob ysgol yn eu mynychu yn ystod y flwyddyn ysgol?
- Oes gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n ddigonol ar gael, ac os nad oes, sut fyddai hyfforddiant yn cael ei gyllido?
- Sut mae costau cludiant yn cael eu cynnal? (Mae'r ffigurau diweddar yn awgrymu £15 y pen am siwrnai gron o 10 milltir).
- Oes adnoddau ychwanegol ar gyfer cit / dillad er mwyn i blant allu cymryd rhan mewn profiadau awyr agored?
- Beth yw'r llwybrau gadael fel bod pobl ifanc ac athrawon yn gallu adeiladu ar yr hyn maent wedi'i ddysgu?

Mae pryder y gallai'r Bil hwn gael ei weld hefyd fel ticio'r bocs 'corfforol' ar gyfer y grŵp blwyddyn, heb fod yn gyfle i gyfoethogi. Mae angen i ddysgu awyr agored, a'r

gweithgarwch corfforol canlyniadol, fod yn rhan integredig o'u diwrnod gyda'r cyfle hwn yn cael ei weld fel cyfoethogi, i ddatblygu ac adeiladu ar sgiliau bywyd pwysig sydd eu hangen mewn amgylchedd cynhwysol.

Un o flaenoriaethau clir Chwaraeon Cymru o ran sicrhau bod ein bwriad strategol 'Rhoi dechrau gwych i bob person ifanc' yn cael ei gyflawni yw bod y Cynnig Actif Dyddiol (DAO) yn cael ei wireddu'n llawn, ar ôl treialu a gwerthuso, ym mhob ysgol ledled Cymru. Yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant, un o'r argymhellion allweddol oedd 'Dylai'r cynnig dyddiol symud ymlaen heb oedi pellach'.

Mae Actif Dyddiol yn fenter aml-asiantaeth, traws-polisi i hyrwyddo dull ysgol gyfan o weithredu gyda gweithgarwch corfforol a fydd yn dylanwadu ar ddull diwygiedig ac wedi'i adnewyddu o weithredu ar gyfer ysgolion. Nid yw Actif Dyddiol yn rhaglen benodol ond yn ddull sy'n ymgorffori'r holl gyfleoedd lle gellir cyflwyno gweithgarwch corfforol yn ystod y diwrnod ysgol, gan ddarparu pecyn cefnogi i'w galluogi i ddatblygu cynllun pwrpasol ar gyfer eu hysgol yn seiliedig ar wybodaeth ac adborth y disgyblion.

Mae ein gwaith sydd i ddod ar y Cynnig Actif Dyddiol (DAO) mewn ysgolion yn enghraifft o sut gellir creu amgylcheddau addysg cynhwysol ac rydym yn credu y byddai'r Bil hwn yn cyd-fynd yn dda â dyheadau'r rhaglen hon. Mae hon yn elfen hollbwysig o ran darparu cyfleoedd i blant a all liniaru effeithiau amddifadedd. Nid amcan chwaraeon yn unig yw hwn, ond ffordd o wella lles corfforol a meddyliol disgyblion, a chynyddu sgiliau cyfathrebu, hyder a chydlyniant cymdeithasol o fewn ysgolion a lleoliadau cymunedol, sydd unwaith eto yn cyd-fynd â nod y Bil hwn.

Yn debyg i'r negeseuon yn y Bil hwn, rydym yn credu mai ysgolion yw'r unig leoliadau a all effeithio ar bob plentyn, dim ots beth yw ei incwm, ac felly mae'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc na fyddent yn gallu cymryd rhan ynddynt fel arall o bosibl.

Rydym yn gobeithio gweld y DAO yn cael ei ehangu yn 2024, yn amodol ar gyllid ar gyfer cydlynydd, ac rydym yn hyderus y bydd yn cael effaith ar sicrhau bod pob plentyn yn gallu bod yn actif drwy gydol y diwrnod ysgol, yn unol â dyheadau'r cwricwlwm.

Bydd y DAO yn helpu i wireddu dyhead Llywodraeth Cymru i chwaraeon fod yr adnodd iechyd ataliol mwyaf effeithiol yn y wlad.

Cyn sefydlu'r Cynnig Actif Dyddiol, sefydlodd Chwaraeon Cymru raglen 'Addysg Actif y Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol' (AEBSD).

Comisiynwyd Sefydliad Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru (WIPAHS) gan Chwaraeon Cymru i gefnogi'r gwaith o werthuso'r rhaglen a sicrhau gwybodaeth o'r data a gasglwyd er mwyn darparu argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r data a gasglwyd gan Chwaraeon Cymru o fis Ionawr 2022 ymlaen ac a ddadansoddwyd gan WIPAHS tan fis Awst 2022.

Gwerthusiad llawn o Actif y Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol - Gwerthusiad O'r Rhaglen 'Addysg Actif y Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol' | Chwaraeon Cymru

## Crynodeb

I grynhoi, mae Chwaraeon Cymru yn cytuno ag egwyddorion y Bil hwn ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth, y drafodaeth a'r sgyrsiau y mae wedi'u creu. Mae angen trafod pellach ynghylch goblygiadau ariannol y Bil, gyda'r hinsawdd bresennol yn codi

cwestiynau anodd i'r Llywodraeth o ran i ble mae arian yn cael ei ddyrannu ac i ble ddylid ei ddyrannu yn y dyfodol.

Rydym yn credu'n gryf y dylai pob person ifanc gael y cyfle i gael dechrau gwych mewn bywyd. Dylai pob plentyn allu cael mynediad at gyfleoedd chwaraeon ac allgyrsiol diogel, sy'n eu meithrin ac ni ddylent brofi rhwystrau fel cludiant, mynediad i git neu anallu i gymryd rhan oherwydd diffyg sgiliau. Rydym yn dymuno bwrw ymlaen â'n gwaith gyda'r Cynnig Actif Dyddiol mewn ysgolion ac rydym yn credu bod canlyniad y Bil hwn yn cyd-fynd yn gadarn â'r gwaith hwnnw.

Rydym yn edrych ymlaen at weld sut bydd y Bil hwn yn datblygu yn y dyfodol a byddem yn gwerthfawrogi bod yn rhan o sgyrsiau yn y dyfodol.